

Dirgelwch Coedwig Arfordirol Dwyrain Affrica

Tudalen 1

Cyflwyniad

Mae dirgelion yn golygu bod disgyblion yn rhoi cliwiau at ei gilydd a'u hysgrifennu ar ddarnau ar wahân o bapur i ateb cwestiwn. Ardderchog ar gyfer datblygu llythrennedd, sgiliau meddwl a datrys problemau, ac maen nhw'n dda iawn hefyd ar gyfer archwilio cydgysylltiad byd-eang.

Cyn y wers - llungopiwch y cardiau, a'u torri a'u shiflo. Rhowch un set i bob grŵp bach o ddisgyblion a gofynnwch iddynt ddod o hyd i'r ateb i'r cwestiwn.

Tudalen 2

Y Cwestiwn Dirgel

Geiriau i chwilio amdanynt yn y geiriadur

Tudalennau 3, 4

Dirgelwch (16 cerdyn)

Tudalennau 5, 6

Dirgelwch (14 cerdyn)

Fel yr uchod gyda llai o gardiau ac iaith symlach

Tudalen 7

Gwybodaeth gefndirol i athrawon

Powerpoint

Gallwch ddefnyddio powerpoint gyda disgyblion hefyd, sy'n cynnwys y cyfarwyddiadau, y geiriau i edrych amdanynt yn y geiriadur, y cwestiwn a'r lluniau. Defnyddiwch y lluniau yn y powerpoint wedyn, neu defnyddiwch y lluniau os yw grŵp angen cymorth.

Ar ôl y gweithgaredd, trafodwch y stori gyda'r disgyblion.
Sut mae'r prosiect yn helpu i amddiffyn y goedwig law?
Sut mae'n gweithio yn erbyn newid yn yr hinsawdd?

Mae dolen ar waelod tudalen 7 i flog y WWF am y prosiect hwn a allai fod o ddiddordeb i ddisgyblion.

Yn eich grwpiau, byddwch yn cael set o gardiau.

Maent yn gwneud stori am bentref yng ngwlad Kenya.

Rhowch nhw yn y drefn gywir i ateb y cwestiwn.

Cwestiwn:

Pam fod plant ym mhentref Fihoni yn cael gwell marciau yn yr ysgol?

Chwiliwch am y geiriau hyn yn y geiriadur i'ch helpu chi

Cynaliadwy

Rhad ar
Danwydd

Cyfrannu

Tlodi

Cerosin

Cwestiwn: Fersiwn 1

Pam fod plant ym mhentref Fihoni yn cael gwell marciau yn yr ysgol?

Mae pentref Fihoni ger coedwig Gogoni yng Nghenya.

Mae prosiect o'r enw 'Clean Energy Villages' wedi cael ei sefydlu yn Fihoni. Mae'n darparu ynni glân, cynaliadwy i fwy na 400 o deuluoedd.

Mae Maint Cymru, elusen coedwig law yng Nghaerdydd, a WWF wedi cyfrannu rhywfaint o arian at y prosiect.

Mewn pentrefi yn yr ardal, roedd dros 85% o'r teuluoedd yn arfer defnyddio coed tân i goginio ac olew o'r enw cerosin i gael golau.

Roedd y stofiau ar gyfer coginio yn defnyddio llawer o goed oedd yn cael eu torri o'r coedwigoedd. Arweiniodd hyn at golli coed a chynefinoedd ar gyfer y bywyd gwyllt.

Hefyd, roedd defnyddio stofiau aneffeithlon yn golygu bod yn rhaid i fenywod dreulio tuag awr y dydd yn casglu coed o'r goedwig ar ôl ysgol.

Nid yw lampau cerosin yn llachar iawn, felly nid oedd pobl yn gallu gweld yn dda iawn, ac roedd y mwg yn gwneud eu llygaid yn goch ac yn goslyd.

Mae cerosin yn ddrud ac yn anodd i bobl ei fforddio.

Cwestiwn: Fersiwn 1

Mae llosgi cerosin yn rhyddhau CO₂ hefyd ac, fel coed tân anghynladwy, mae ei ddefnyddio'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd.

Mae'r prosiect 'Clean Energy Villages' yn helpu pobl yn Fihoni i ddefnyddio llusernau solar fel ffynhonnell o olau. Gallant hefyd ddefnyddio pŵer yr haul i wefru eu ffonau symudol.

Mae rhai ysgolion yng Nghymru wedi bod yn dysgu am goedwigoedd glaw, ac wedi codi arian ar gyfer Maint Cymru.

Nawr, mae teuluoedd yn defnyddio stofiau arbed ynni newydd i goginio, sydd angen llawer llai o goed tân.

Bydd y pentrefwyr hefyd yn plannu coed ar ffermydd, yn hytrach na thorri'r coedwigoedd i lawr, fel bod ganddynt ffynhonnell gynaliadwy o goed.

Yn ogystal â helpu i amddiffyn y coedwigoedd hyn, mae 'Clean Energy Villages' yn helpu i wella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi.

"Mae hyn wedi fy helpu i arbed 40 swllt Kenya bob dydd, yr oeddwn yn arfer eu defnyddio i brynu cerosin ar gyfer fy lamp ac i wefru fy ffôn symudol," meddai Mama Zainab, sy'n byw yn Fihoni.

Oherwydd y newidiadau, gall plant astudio am dair awr gyda'r nos. Mae rhai ohonynt yn cael marciau 20% yn well yn yr ysgol.

Cwestiwn: Fersiwn 2

Pam fod plant ym mhentref Fihoni yn cael gwell marciau yn yr ysgol?

Mae pentref Fihoni ger coedwig Gogoni yng Nghenya.

Mae'r prosiect 'Clean Energy Villages' yn helpu teuluoedd yn Fihoni i ddefnyddio ynni glân, cynaliadwy.

Roedd pobl yn Fihoni yn arfer coginio ar stofiau oedd yn defnyddio llawer o goed tân.

Roedd y coed ar gyfer y stofiau yn cael eu torri o'r coedwigoedd. Roedd hyn yn golygu bod coedwigoedd a chartrefi ar gyfer bywyd gwyllt yn cael eu colli.

Roedd menywod yn casglu coed ar gyfer y stofiau ar ôl ysgol.

Roedd pobl yn arfer defnyddio olew o'r enw cerosin ar gyfer lampau.

Nid yw lampau cerosin yn llachar iawn, felly nid oedd pobl yn gallu gweld yn dda iawn, ac roedd y mwg yn gwneud i'w llygaid gosi.

Mae llosgi cerosin yn rhyddhau CO₂.

Cwestiwn: Fersiwn 2

Mae'r prosiect 'Clean Energy Villages' yn helpu pobl i brynu lampau sy'n cael eu pweru gan yr haul. Gallant hefyd ddefnyddio pŵer yr haul i wefru eu ffonau symudol.

Mae rhai ysgolion yng Nghymru wedi bod yn dysgu am goedwigoedd glaw, ac wedi codi arian ar gyfer Maint Cymru.

Nawr, mae teuluoedd yn defnyddio stofiau arbed ynni newydd i goginio, sydd angen llawer llai o goed tân.

Bydd y pentrefwyr yn plannu mwy o goed i'w defnyddio, yn hytrach na thorri'r coedwigoedd i lawr.

Mae 'Clean Energy Villages' yn helpu i wella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi, ac amddiffyn y coedwigoedd.

Oherwydd y newidiadau, gall plant astudio am dair awr gyda'r nos. Mae rhai ohonynt yn cael marciau 20% yn well yn yr ysgol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Ynghylch Clean Energy Villages

(gallai'r rhain gael eu defnyddio fel 4 cerdyn ychwanegol yn y dirgelwch)

Mae rhywfaint o'r arian a godir gan Maint Cymru, elusen coedwig law, yn mynd i gefnogi 'Clean Energy Villages', prosiect WWF yng Nghoedwig Arfordirol Dwyrain Affrica yn Kenya.

Ar bob llusern solar y mae WWF yn ei darparu, mae'r gymuned yn prynu un yn fwy am tua 30 punt yr un. Mae hyn yn golygu bob gan bob teulu ddwy lusern.

Mae WWF hefyd yn cefnogi'r banc cymunedol lleol, sydd wedi gwneud trefniadau credyd arbennig, a sicrhau bod pob aelod o'r gymuned yn gallu fforddio'r llusernau.

Hyd yn hyn, mae bron i 400 o deuluoedd wedi derbyn y llusernau, ac mae 50 wedi derbyn stofiau. Mae'r canlyniadau cychwynnol yn awgrymu newidiadau enfawr yn ffordd o fyw'r teuluoedd.

Mae nifer y coed tân sydd eu hangen i goginio wedi cael ei leihau o fwy na 50%! O wella safonau addysg, i leihau faint o amser sy'n cael ei dreulio yn casglu coed tân, i arbed arian, mae'n anhygoel sut mae prosiect yn gallu cael effeithiau mor enfawr ar les pobl mewn amser mor fyr.

Ynghylch Coedwig Arfordirol Dwyrain Affrica

Maint Cymru

http://sizeofwales.org.uk/cy/projects/wwf_eastern_coast.html

Blogiau WWF ar y Goedwig Ddwyreiniol

<http://sizeofwales.tumblr.com/tagged/wwf>